


CAMFANTEISIO’N RHYWIOL AR BLANT

BETH YDI HYN?

Mae Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant (CSE) yn fath o gam-drin rhywiol. Mae’n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd grym i orfodi neu dwyllo plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed i gyflawni neu gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol:

- yn gyfnwidd am rywbeth y mae’r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu
- er budd ariannol neu i godi statws y troseddwr neu’r hwyluswr. Gallai’r dioddefwr fod wedi ei ecsbloetio’n rhywiol hyd yn oed os yw’n ymddangos fod y gweithgaredd rhywiol yn gydsyniol, Nid yw CSE bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol, gall hefyd ddigwydd drwy ddefnyddio technoleg.




Mae CSE yn drosedd ofnadwy sydd â chanlyniadau dinistriol a phellgyrhaeddol i’r dioddefwr, eu teulu a chymdeithas. Nid yw’n gyfyngedig i unrhyw un ardal ddaearyddol na chefnidir ethnig na chymdeithasol. Mae bod â diffiniad cyffredin o CSE yn hollbwysig o ran adnabod, monitro a sicrhau ymatebion amlasiantaeth effeithiol.

Mae effeithiau CSE yn eang a gallant fod yn ddinistriol ac yn hirdymor. Mae hyn yn arbennig o wir os nad yw dioddefwyr yn cael y gefnogaeth briodol. Gall dioddefwyr ddiodeff amrywiaeth o effeithiau iechyd gan gynnwys anafiadau corfforol, heintiau a drosglwyddir drwy ryw a chanlyniadau gynaeolegol mwy hirdymor i ferched.

Gall pant/pobl ifanc brofi trawma emosiynol/salwch meddwl megis iselder, hunan-niweidio, meddwl am ladd eu hunain, anhwylder straeon wedi trawma a phroblemau cyffuriau/alcohol.

Mae CSE hefyd yn effeithio ar blentyn/unigolyn ifanc yn y tymor hirach gan ei fod yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o droseddu ymysg pobl ifanc, rhagolygon addysgol gwael, ymgysylltiad â gwaith rhyw fel oedolyn, ymddieithrio rhag teulu a ffrindiau, perthnasau negyddol yn y dyfodol a mwy o risg o ddiodeff mathau eraill o drais a chamdriniaeth

Gall CSE hefyd effeithio ar gyloedd cyfeillgarwch, rhwydweithiau teulu a’r gymuned ehangach.



ADNABOD:

Fel unrhyw fath arall o gam-drin plant yn rhywiol, gall CSE :

- Effeithio ar unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc (bachgen neu ferch) o dan 18 oed, gan gynnwys rhai 16/17 oed sy’n gallu cydsynio’n gyfreithiol i gael rhyw. Mae’n gam-drin – hyd yn oed os yw’n ymddangos ei fod yn gydsyniol
- Gall gynnwys grym a/neu ddulliau cymhellol o ennyn cydsyniad a gall fod trais neu fygythiadau o drais ynghlwm ag o, ond nid bob amser
- Gall ddigwydd heb fod y plentyn neu’r unigolyn ifanc yn ymwybodol o hynny (e.e. pobl eraill yn creu fideos/delweddau ac yn eu postio yn y cyfryngau cymdeithasol)

MATERION ALLWEDOL:

Gall y ffaith fod plant a phobl ifanc yn aml yn credu eu bod nhw wedi cael dewis eu hatal nhw rhag gofyn am gefnogaeth

Mae deall y cyd-destun y mae dioddefwyr yn gwneud eu 'dewis' ynddo yn hollbwysig o ran ein gallu ni i ymateb yn effeithiol i CSE .

Mae'r ymateb i CSE yn gofyn am symudiad tuag at ystyried rhieni/gofalwyr yn bartneriaid yn y broses ddiogelu (yn hytrach nag fel ffynhonnell o risg).

Mae perthnasau diogel a chyson yn hollbwysig o ran hybu gwytnwch mewn plant a phobl ifanc.

SUT I YMATEB:

- Ydw i'n hyderus fy mod yn deall sut i adnabod yr arwyddion bod CSE yn/wedi digwydd?
- Sut alla'i gael plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hecsbloetio gan oedolion i ymddiried ynof i?
- Sut alla'i greu cyfleoedd i ddatgelu heb roi pwysau ar ddioddefwyr i wneud hynny cyn eu bod nhw'n barod?
- Sut all goruchwyliaeth fy helpu i ddatblygu fy nulliau ymarfer?

GWEITHREDU:

Dywed y rhai sydd wedi dioddef CSE fod angen i weithwyr proffesiynol roi blaenoriaeth iddynt, bod yn amlwg effro i'w hanghenion, yn sylwgar, yn ymatebol ac yn ddibynadwy, gan barhau i roi cefnogaeth iddynt hyd yn oed os yw hynny'n mynd yn anodd weithiau.

Siaradwch â'r swyddog sy'n arwain ar Ddiogelu yn eich asiantaeth chi.

Cyfeiriwch at Weithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan a Chanllawiau Cenedlaethol perthnasol i CSE.



RHADFFÔN 080880 23456



RHADFFÔN 0808 800 5000

Childline –

Cymru Wales

RHADFFÔN 0800 1111

<http://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/>